

Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried:

Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwarchodaeth rhag Aflonyddu ar sail Rhyw yn Gyhoeddus

Mai 2023

Ar 25 Ebrill 2023, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried a chyflwyno adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Gwarchodaeth rhag Aflonyddu ar sail Rhyw yn Gyhoeddus.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 18 Mai 2023.

Ar 9 Mai, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar ddyddiad cau newydd, sef 8 Mehefin 2023.

